

## **Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

#### **Ynni Gwyrdd ac Arbed Ynni Green Energy and Energy Conservation**

**Q11 Mick Bates:** What is the Welsh Assembly Government doing to make public buildings exemplars of green energy and energy conservation? OAQ0843(FM)

**The First Minister:** We are working to fulfil sustainable development action plan commitments on energy use, efficiency and reporting, use of renewable technologies and meeting sustainable development excellence standards in public buildings. This is in addition to the work of the Design Council for Wales, the Carbon Trust and the Welsh Development Agency's design guide for creating sustainable places.

**C11 Mick Bates:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod adeiladau cyhoeddus Cymru yn batrymau o ynni gwyrdd ac arbed ynni? OAQ0843(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn ymdrechu i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yng nghynllun gweithredu datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun y defnydd a wneir o ynni, effeithlonrwydd ynni ac adrodd ar hynny, ynghyd â'r defnydd o dechnolegau adnewyddadwy a chyrraedd safonau rhagoriaeth datblygu cynaliadwy mewn adeiladau cyhoeddus. Mae hyn oll yn ychwanegol at waith Cyngor Cynllunio Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon, a chanllawiau cynllunio Awdurdod Datblygu Cymru ar greu manau cynaliadwy.

#### **Caffael Cynnyrch o Gymru The Procurement of Welsh Produce**

**Q12 Laura Anne Jones:** Will the First Minister make a statement on the procurement of Welsh produce for schools in south Wales? OAQ0838(FM)

**The First Minister:** Many local authorities are now working with local producers to ensure the supply of fresh, healthy produce into schools. To assist them, Value Wales's food group works closely with procurement and catering managers, and produced the 'Food for Thought' guidance in 2004, and food case studies in April 2005.

**C12 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gaffael cynnyrch o Gymru ar gyfer ysgolion y de? OAQ0838(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae nifer o awdurdodau lleol yn gweithio gyda chynhyrchwyr lleol i sicrhau bod cynnyrch ffres ac iach ar gael i ysgolion. Er mwyn bod o gymorth gyda hynny, mae grŵp bwyd Gwerth Cymru yn gweithio'n agos gyda rheolwyr caffael ac arlwy, a chynhyrchwyd canllawiau 'Cnoi Cil' yn 2004, ac astudiaethau achos ar fwyd yn Ebrill 2005.

**Dyfodol Cymorth Rhanbarthol Dewisol**  
**The Future of Regional Selective Assistance**

**Q13 Kirsty Williams:** Will the First Minister make a statement on the future of regional selective assistance? OAQ0839(FM)

**C13 Kirsty Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol cymorth rhanbarthol dewisol? OAQ0839(FM)

**The First Minister:** Regional selective assistance and Assembly investment grant are currently being refined in the light of experience and the changing needs of Wales. Replacement schemes are likely to be brought into effect on 1 January 2007, following the introduction of new European Commission enabling regulations, which are expected to be published next year.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cymorth rhanbarthol dewisol a grant buddsoddi'r Cynulliad yn cael eu hatgyfnerthu ar hyn o bryd yn sgîl profiad ac yn sgîl y ffaith bod anghenion Cymru yn newid. Mae'n debygol y caiff cynlluniau newydd eu rhoi ar waith ar 1 Ionawr 2007, wedi i reoliadau galluogi newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd gael eu cyflwyno. Disgwylir cyhoeddi'r rheoliadau hynny flwyddyn nesaf.

**Moderneiddio Gwasanaethau Iechyd yn y Canolbarth a'r Gorllewin**  
**The Modernisation of Health Services in Mid and West Wales**

**Q14 Lisa Francis:** Will the First Minister make a statement on the modernisation of health services in mid and west Wales? OAQ0847(FM)

**C14 Lisa Francis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am foderneiddio gwasanaethau iechyd yn y canolbarth a'r gorllewin? OAQ0847(FM)

**The First Minister:** The mid and west Wales regional office is in the process of producing a regional reconfiguration plan. The outcome will emerge shortly. Meanwhile, the office will be publishing a document setting out the case for service change in the mid and west Wales region in the next few weeks.

**Y Prif Weinidog:** Mae swyddfa rhanbarthol canolbarth a gorllewin Cymru yn y broses o gynhyrchu cynllun ailgyflunio rhanbarthol, a chawn wybod beth fydd y canlyniad cyn hir. Yn y cyfamser, bydd y swyddfa yn cyhoeddi dogfen yn amlinellu'r angen am newid gwasanaethau yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin yn yr wythnosau nesaf.

**Y Dreth Gyngor (2006-07)**  
**Council Tax (2006-07)**

**Q15 Glyn Davies:** What plans does the First Minister have to restrain increases in council tax for 2006-07? OAQ0837(FM)

**C15 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i ffrwyno cynnydd yn y dreth gyngor yn 2006-07? OAQ0837(FM)

**The First Minister:** I expect local authorities to act responsibly in setting council tax increases next year, and the council tax transitional arrangements grant scheme protects council tax payers by limiting the effect of revaluation for properties that have more than one band increase in their valuation.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn disgwyl i awdurdoau lleol fod yn gyfrifol wrth benderfynu ar y cynnydd yn y dreth gyngor flwyddyn nesaf. Bydd cynllun grant trefniadau trosiannol y dreth gyngor yn amddiffyn pobl sy'n talu'r dreth gyngor drwy liniaru effeithiau'r ailbriso ar eiddo fydd yn codi mwy nag un band.